REES, JONATHAN ('Nathan Wyn '; 1841 - 1905), bardd, llenor, ac eisteddfodwr

Enw: Jonathan Rees
Ffugenw: Nathan Wyn
Dyddiad geni: 1841
Dyddiad marw: 1905
Rhiant: Eunice Rees
Rhiant: James Rees
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd, llenor, ac eisteddfodwr
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: James Ednyfed Rhys

Ganwyd 21 Awst 1841 yn Casmael, Sir Benfro, mab James ac Eunice Rees, a brawd i Evan Rees, ' Dyfed '. Symudodd y teulu i Aberdâr pan oedd yn 9 mlwydd oed, ac i Ystrad Rhondda yn 1877. Bu'n swyddog yng nglofa Bodringallt hyd ddiwedd ei oes. Bu'n amlwg gydag addysg ac yn aelod o fwrdd ysgol y Rhondda am flynyddoedd lawer.

Ni fu nemor eisteddfod genedlaethol yn 30 mlynedd olaf ei fywyd nad enillai wobrwyon ar bob math o fesurau. Yn Lerpwl yn 1900 llwyddodd i gipio cynifer â chwech o wobrau. Cyhoeddodd *Caniadau Nathan Wyn*, a *Munudau Hamddenol*. Ceir llawer o'i farddoniaeth yng ngholofnau'r *Gwladgarwr*, *Y Geninen*, a'r *Cymru (O.M.E.)*. Bu farw 13 Mehefin 1905.

Awdur

Y Parchedig James Ednyfed Rhys, (1876 - 1960)

Ffynonellau

Hunangofiant (mewn llawysgrif)

Y Geninen, 1905

Y Goleuad, 1905

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu